# Ein blwyddyn wyllt
# Our wild year



© DILYS THOMPSON

**Adroddiad effaith | Impact report**

**2022-2023**

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust



GWARDCHODFA NATUR SPINNIES ABEROGWEN NATURE RESERVE © RICHARD WALKER



# Meithrin y ffordd tuag at adferiad byd natur

**Mae 'Dod â Natur yn Ôl' – ein strategaeth newydd ni tuag at 2030 – yn cyd-fynd yn bwrpasol â strategaethau Ymddiriedolaethau Natur eraill. Drwy gydweithio, byddwn yn cynyddu ein gallu i ddod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur, a chreu cymdeithas lle mae natur o bwys.**

Mae gwarchodfeydd natur yn gweithredu fel hafan ddiogel i fywyd gwyllt ac yn parhau i fod yn ganolog i'n gwaith ni, ond mae'n dod yn amlwg nad yw'r safleoedd hyn – dim ots pa mor dda y cânt eu rheoli a faint o ofal maent yn eu cael – yn ddigon. Er mwyn gwella ein gallu i sicrhau adferiad byd natur ar raddfa fawr, mae angen i ni weithio mewn llefydd newydd gydag amrywiaeth ehangach o bobl; cefnogi eraill i reoli eu tir a chreu mwy o le i fyd natur ffynnu. Mae ein strategaeth ni'n wahoddiad i ymgysylltu yn ogystal â datganiad o fwriad.

Fel erioed, mae pobl hefyd wrth galon y gwaith rydyn ni'n ei wneud - ac yn hollbwysig mae'r rhai sy'n ein cefnogi ni'n uniongyrchol. Mae nifer ein haelodau yn iach; rydyn ni'n denu nifer fawr o wirfoddolwyr; rydyn ni'n cael ein cefnogi gan ystod eang o gyllidwyr a phartneriaid; ac mae ewyllysiau'n cynrychioli ffrwd incwm hanfodol rydyn ni'n ei throi'n weithredu uniongyrchol dros fywyd gwyllt – diolch i chi am eich ffydd ynom ni.

Rydyn ni'n credu ym mhwysigrwydd atebion sy'n seiliedig ar natur wrth fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang, a daw'r gred hon yn fyw yn yr holl waith gwych mae'r Ymddiriedolaeth Natur wedi'i wneud yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Cadwch mewn cysylltiad â'n gwaith ni yn 2023-24 hefyd – mae cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer byd naturiol ffyniannus yn gofyn am weithredu ac ysbrydoli parhaus!

# Forging the way towards nature's recovery

**'Bringing Nature Back' – our new strategy towards 2030 – is purposefully aligned with those of other Wildlife Trusts. By working together, we'll maximise our ability to bring wildlife back, empower people to take action for nature, and create a society where nature matters.**

Nature reserves act as safe havens for wildlife and remain central to our work, but it is becoming obvious that these sites – however well managed and well loved – aren't enough. To improve our ability to deliver nature's recovery at scale, we need to work in new places with a wider variety of people; supporting others to manage *their* land and creating more space for nature to flourish. Our strategy is as much an invitation to engage as a statement of intent.

As ever, people are also at the heart of the work we do – and none more so than those who directly support us. Our membership numbers are healthy; we attract a high number of volunteers; we are supported by a wide range of funders and partners; and legacies represent a vital income stream that we turn into direct action for wildlife – thank you for the trust you place in us.

We believe in the importance of nature-based solutions in addressing local and global problems, and this belief is brought to life by all the great work the Wildlife Trust has done over the last twelve months. Do keep in touch with our work in 2023-24, too – achieving our vision for a thriving natural world requires continuous action and inspiration!



**Frances Cattanach,**
*Prif Weithredwraig / Chief Executive Officer*



**Howard Davies,**
*Cadeirydd / Chair*

# **Ein blwyddyn wyllt** — Rhai uchafbwyntiau gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

## EBRILL 2022


© YNGC

Daeth pobl o 14 o wledydd gwahanol at ei gilydd ar gyfer diwrnod anhygoel yn **plannu mwy na 1,000 o goed** ar hyd Afon Alun, ger yr Wyddgrug. Mewn partneriaeth ag Action Asylum, a chan weithio ochr yn ochr ag aelodau o Gyngor Tref yr Wyddgrug, byddwn wedi helpu i warchod glannau'r afon, lleihau llifogydd a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd – hyn i gyd ar yr un pryd â hybu **hyder, hunan-barch a lles** y cyfranogwyr. Heulwen, gweithgarwch corfforol a chacennau cartref blasus – beth arall mae rhywun ei eisiau?

## MAI


© YNGC ANNA WILLIAMS

Fel rhan o lansiad y **Cwricwlwm newydd i Gymru**, gwahoddwyd ein Swyddog Addysg a Chymuned i blannu coeden yn Ysgol y Gelli, Caernarfon, gyda Hywel Williams AS. Yn y gorffennol mae'r ysgol wedi elwa o'n help ni i greu gardd randir fawr, perllan ac ardal bywyd gwyllt – mae'n wych gweld **dysgu yn yr awyr agored** yn dod yn rhan mor bwysig o fywyd ysgol.

## MEHEFIN


© VAUGHN MATTHEWS

Daeth arbenigwyr o bob rhan o Ogledd Cymru at ei gilydd ar gyfer bioblitz yn Big Covert Wood (rhan o'n Tirwedd Fyw ni yn Alun a Chwiler) i helpu i roi syniad cyffredinol o gyflwr ecolegol y coetir hynafol yma. Roedd rhai o'r cofnodion mwyaf diddorol yn cynnwys yr ystlum pedol lleiaf, telor y coed, a **llawer iawn o wyfynod brithion y llwyf**: rhywogaeth sydd â chynefin penodol iawn o lwyfen lydanddail yn tyfu ar galchfaen. Er gwaethaf presenoldeb clefyd llwyfen yr Iseldiroedd, mae'r coed llwyfen llydanddail aeddfed yma i'w gweld yn iach a gallant fod yn ffynhonnell bwysig o hadau ar gyfer tyfu'r genhedlaeth nesaf.

## GORFFENNAF


© YNGC LIN CUMMINS

Cafodd ymdrechion i leihau lledaeniad **creigafal ymledol** i laswelltiroedd calchfaen rhyfeddol Gogledd Cymru hwb gan lansiad **cynllun 'cyfnewid planhigion'** arloesol. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn cofrestru i gymryd rhan dynnu planhigion creigafal o'u gerddi a'u newid am blanhigion eraill sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt – a rhoddwyd Taleb Garddio gwerth £10 am ddim iddynt fel diolch!

## AWST


© YNGC

Daeth 75 o bobl ifanc o bob rhan o'r wlad at ei gilydd am dridiau yng Nghanolfan Uwchgynhadledd Rock UK, Trelewis, ar gyfer ein **huwchgynhadledd ieuenctid Sefyll Dros Natur Cymru**. Gyda chyfranogwyr rhwng 11 a 24 oed yn gweithio dros fywyd gwyllt yn eu hardal leol, roedd y gweithgareddau'n amrywio o weithdai ar yrfaoedd gwyrdd a sgyrsiau ar fynd i'r afael â newid hinsawdd i sesiynau dringo a chelf a chrefft ar thema byd natur!

## MEDI


© JON HAWKINS SURREY HILLS PHOTOGRAPHY

Ymwelodd ein Swyddog Addysg a Chymuned ag **Ysgol y Faenol** ym Mangor i arwain cyfres o weithdai a chynnal prosiect tirlunio mawr! Diolch i gefnogaeth Ymddiriedolaeth Edina a brwdfrydedd pawb a gymerodd ran – gan gynnwys gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth Natur, y staff a'r disgyblion – crëwyd **gardd synhwyraidd, cyfeillgar i fywyd gwyllt** ym mynedfa'r ysgol.

## HYDREF



© JON HAWKINS SURREY HILLS PHOTOGRAPHY

Gyda'r hydref yn ei anterth, ac er gwaethaf y tywydd amrywiol, fe wnaethom barhau â'n rhaglen o ddigwyddiadau cyhoeddus difyr. Cynhaliwyd **helfeydd ffyngau** yng Ngwarchodfeydd Natur Coed y Felin, Aberduna a Choed Cilygroeslwyd, a chafwyd **taith gerdded drwy goetir i ddysgwyr Cymraeg** yn Chwarel Marffordd i gynyddu eu hyder wrth siarad am y byd naturiol yn ein dwy iaith genedlaethol.

## TACHWEDD



© TRAI ANFIELD

Roedd yn bleser gennym groesawu **un o brif ymgyrchwyr amgylcheddol y wlad** i Ogledd Cymru i draddodi ein 'Darlith Lacey' flynyddol. Aeth arweinydd ysbrydoledig yr Ymddiriedolaethau Natur, **Craig Bennett**, i'r afael â hecl ddiog – "Allwch chi ddim atal cynnydd!" – yn uniongyrchol, drwy herio hen ragdybiaethau diflas am yr amgylchedd a'r economi.

## RHAGFYR



© GWYNN JONES

Ehangwyd ein daliadau tir o bron i chwarter dros dro drwy dderbyn ein cynnig ar gyfer **Bryn Ifan** – 450 o erwau o dir fferm ger Clynnog Fawr. (Ni chwblhawyd y pryniant yn dechnegol tan fis Ebrill 2023 – bydd llawer mwy yn *Ein blwyddyn wyllt* y flwyddyn nesaf!) Drwy weithio mewn partneriaeth â ffermwyr a chymunedau lleol, byddwn yn ailuno cynhyrchu bwyd, coedwigaeth a chadwraeth natur: adfer cynefinoedd ar gyfer glöynnod byw, rhedyn a blodau prin a hefyd cynnal dull o ffermio mewnbwn isel, gwerth uchel gyda buddion economaidd gwirioneddol.

## IONAWR 2023



© YNGC

Bu grŵp o lysgenhadon morol ifanc – ein 'Hyrwyddwyr Achub Moroedd' newydd – yn arwain drwy drefnu ein digwyddiad glanhau traeth hynod lwyddiannus ar gyfer y gaeaf, **Plast Off!**, sy'n parhau i ysbrydoli ystod eang o bobl i ddod at ei gilydd mewn arddangosfa o weithredu cymunedol dros yr amgylchedd.

## CHWEFROR



© YNGC RICHARD CUTTS

Cwblhawyd cam cyntaf y gwaith atgyweirio hydrolegol yng Nghoed Tŷ Uchaf: hen blanhigfa goedwigaeth sydd bellach yn rhan bwysig o **Warchodfa Natur Cors y Sarnau**. Mae 500m o fwnd cyfuchlin proffil isel wedi'i osod yn ei le i helpu i gadw dŵr, ac rydyn ni hefyd wedi creu pedwar pwll newydd; clirio llwybrau mynediad newydd; a pharhau â'r frwydr barhaus i gael gwared ar goed sy'n sefydlu yma. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'n gwirfoddolwyr anhygoel ni a'u parodrwydd i wlychu!

## MAWRTH



© MATTHEW ROBERTS

Lansiodd yr Ymddiriedolaethau Natur **Yr Arolwg Natur Mawr** er mwyn rhoi cyfle i bawb o amgylch y DU a'r ynysoedd rannu eu barn ar fyd natur, sut mae'n effeithio arnynt, a'r hyn y dylai (neu na ddylai) cymdeithas ei wneud i'w warchod. Ymhlith llawer o bethau eraill, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa rôl y dylai llywodraeth, busnes a chymunedau lleol ei chwarae wrth reoli natur; faint mae natur yn effeithio ar eu bywydau bob dydd; a pha weithrediadau oeddent hwy eu hunain wedi eu rhoi ar waith i fwynhau a gwarchod byd natur. O fewn ychydig wythnosau, dangoswyd mai aelodau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru oedd y mwyaf ymatebol yn y wlad!

# **Our wild year** — Some highlights from North Wales Wildlife Trust

## APRIL 2022



© NWWT

People from 14 different countries came together for an amazing day **planting over 1,000 trees** along the River Alyn, near Mold. In partnership with Action Asylum, and working alongside members of Mold Town Council, we'll have helped protect the river banks, reduce flooding and create new wildlife habitats – and all whilst boosting participants' **confidence, self-esteem and wellbeing**. Sunshine, physical activity and delicious homemade cakes – what more could we ask for?

## MAY



© NWWT ANNA WILLIAMS

As part of the launch of the new **Curriculum for Wales**, our Education and Community Officer was invited to plant a tree at Ysgol y Gelli, Caernarfon, with Hywel Williams MP. The school has previously benefitted from our help to create a large allotment garden, an orchard and a wildlife area – it's great to see **outdoor learning** becoming such an important part of school life.

## JUNE



© VAUGHN MATTHEWS

Experts from across North Wales came together for a **bioblitz at Big Covert Wood** (part of our Alun & Chwiler Living Landscape) to help provide an overall indication of the ecological health of this ancient woodland. Some of the most interesting records included lesser horseshoe bat, wood warbler, and an **abundance of clouded magpie moths**: a species that has a very specific habitat niche of wych elm growing on limestone. Despite the presence of Dutch elm disease, mature wych elm trees here appear to be healthy and may provide an important source of tolerant seed for propagating the next generation.

## JULY



© NWWT LIN CUMMINS

Efforts to reduce the spread of **invasive cotoneaster** onto North Wales's extraordinary limestone grasslands were boosted by the launch of an innovative **'plant swap' scheme**. Those registering to participate were asked to remove cotoneaster plants from their gardens and replace them with wildlife-friendly alternatives – and given a free £10 National Gardening Gift Voucher as a thankyou!

## AUGUST



© NWWT

75 young people from across the country came together for three days at the Rock UK Summit Centre, Trelewis, for our **Stand for Nature Wales Youth Climate & Nature Summit**. With participants aged between 11 and 24 working for wildlife in their local area, activities ranged from workshops on green careers and talks on tackling climate change to climbing sessions and nature-themed arts and crafts!

## SEPTEMBER



© JON HAWKINS SURREY HILLS PHOTOGRAPHY

Our Education and Community Officer visited **Ysgol y Faenol** in Bangor to lead a series of workshops and undertake a large landscaping project! Thanks to the support from the Edina Trust and the enthusiasm of all involved – including Wildlife Trust volunteers, staff and pupils – a **sensory, wildlife-friendly garden** was created at the entrance of the school.

## OCTOBER



© JON HAWKINS SURREY HILLS PHOTOGRAPHY

With autumn in full swing, and despite variable weather conditions, we continued our programme of engaging public events. **Fungus forays** were held at Coed y Felin, Aberduna, and Coed Cilygroeslwyd Nature Reserves, whilst a **woodland walk for Welsh learners** at Marford Quarry helped participants increase their confidence in talking about the natural world in both our national languages.

## NOVEMBER



© TRAI ANFIELD

We were delighted to welcome **one of the country's top environmental campaigners** to North Wales to give our annual 'Lacey Lecture'. The inspirational leader of The Wildlife Trusts, **Craig Bennett**, tackled a lazy heckle – "You can't stop progress!" – head-on, by challenging tired old assumptions about the environment and the economy.

## DECEMBER



© GWYNN JONES

We provisionally extended our landholdings by almost a quarter by having our offer for **Bryn Ifan** – 450 acres of farmland near Clynnog Fawr – accepted. (The purchase didn't technically complete until April 2023 – there'll be much more in next year's *Our wild year!*) By working in partnership with local farmers and communities, we'll re-unite food production, forestry and nature conservation: restoring habitats for rare butterflies, ferns and flowers whilst supporting a low-input, high-value form of farming with real economic benefits.

## JANUARY 2023



© NWWT

A group of young marine ambassadors – our newly-formed 'Ocean Rescue Champions' – took a lead in organising our hugely successful winter beach clean event, **Plast Off!**, which continues to inspire a wide range of people to come together in a display of community action for the environment.

## FEBRUARY



© NWWT RICHARD CUTTS

We finished the first stage of hydrological repairs at Coed Tŷ Uchaf: a former forestry plantation which is now an important part of **Cors y Sarnau Nature Reserve**. 500m of low-profile contour bund have been installed to help retain water, whilst we've also created four new ponds; cleared new access routes; and continued the ongoing battle to remove colonising trees. We're hugely grateful to our amazing volunteers and their willingness to get wet!

## MARCH




© MATTHEW ROBERTS

The Wildlife Trusts launched **The Great Big Nature Survey**, designed to give everyone around the UK and islands a chance to share their thoughts on nature, how it affects them, and what society should (or shouldn't) do to protect it. Amongst many other things, respondents were asked what role government, business and local communities should play in managing nature; how much nature affects their daily lives; and what actions they themselves had taken to enjoy and protect nature. Within a few weeks, North Wales Wildlife Trust members were shown to be the most responsive in the country!


GWARCHODFA NATUR COED Y FELIN NATURE RESERVE © YNGC / NWWT JONATHAN HULSON

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust




o aelodau
**9,377**
members

o wirfoddolwyr
**741**
volunteers

o warchodfeydd
**35**
nature reserves

o ddilynwyr cyfryngau cymdeithasol
**33,645**
social media followers

o Bartneriaid Naturiol (Busnes)
**38**
Natural Partners (Businesses)



© VAUGHN MATTHEWS

**Ein gweledigaeth** ni yw byd naturiol ffyniannus, gyda bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phobl wedi'u hysbrydoli a'u grymuso i weithredu dros fyd natur.

**Ein pwrpas** ni yw dod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur, a chreu cymdeithas lle mae byd natur o bwys.

**Our vision** is of a thriving natural world, with wildlife and natural habitats playing a valued role in addressing the climate and ecological emergencies, and people inspired and empowered to take action for nature.

**Our purpose** is to bring wildlife back, to empower people to take action for nature, and to create a society where nature matters.

## Ein Nodau Strategol | Our Strategic Goals

Mae ein tri nod strategol yn nodi'r hyn rydym yn credu sydd angen digwydd erbyn 2030 er mwyn gwireddu ein gweledigaeth tymor hwy. / Our three strategic goals set out what we believe needs to happen by 2030 in pursuit of our longer-term vision.

1

**Mae byd natur yng Ngogledd Cymru yn adfer, gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a môr gwylltach lle mae pobl a natur yn ffynnu.**

**Nature in North Wales is in recovery, with abundant, diverse wildlife and natural processes creating wilder land and seascapes where people and nature thrive.**

2

**Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn gweithredu dros fyd natur a'r hinsawdd, gan arwain at well penderfyniadau ar gyfer yr amgylchedd.**

**People in North Wales are taking action for nature and the climate, resulting in better decision-making for the environment.**

3

**Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog, werthfawr wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.**

**Nature is playing a central, valued role in helping to address local and global problems.**

## Ein Trawsnewid Strategol | Our Strategic Transformations

Mae ein pum trawsnewid yn ein galluoedd yn hanfodol os ydym am gyflawni ein nodau strategol. / Our five transformations in our capabilities are essential if we are to achieve our strategic goals.

1

**Ysbrydoli cymunedau i drefnu a symud, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.**

**Inspiring communities to organise and mobilise, especially amongst young people.**

2

**Mynd drwy drawsnewid digidol 'gwraidd a changen'.**

**Undergoing a 'root and branch' digital transformation.**

3

**Cyflawni newid sylweddol yn y cyllid ar gyfer adferiad byd natur.**

**Delivering a step change in funding for nature's recovery.**

4

**Creu partneriaethau newydd i sbarduno adferiad byd natur.**

**Forging new partnerships to drive forward nature's recovery.**

5

**Cynyddu ein gallu i wrthsefyll gweithgarwch anghynaliadwy yn yr amgylchedd morol.**

**Increasing our capacity to counter unsustainable activity in the marine environment.**



© ALEXANDER MUSTARD 2020 VISION

NOD
GOAL
1

# Byd natur mewn adferiad
# Nature is in recovery

**Mae 17% o rywogaethau Cymru yn wynebu difodiant – ac mae dyfodol bywyd gwyllt a oedd unwaith yn gyffredin yn ansicr.**

Mae wedi dod yn amlwg nad yw gwarchod yr hyn sydd gennym ni ar ôl yn ddigon bellach. Mae angen i ni greu gofod newydd i fyd natur drwy gysylltu cynefinoedd, adfer tirweddau ac ailgyflwyno rhywogaethau 'allweddol'.

Ein nod ni yw i o leiaf 30% o dir Cymru gael ei ddiogelu, ei gysylltu a'i reoli'n gadarnhaol ar gyfer byd natur. Ein nod ni ar gyfer adferiad ein moroedd yw ceisio dull sy'n seiliedig ar ecosystemau o weithredu i feithrin gwydnwch yn erbyn pwysau cynyddol. Dim ond Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n adfer fydd yn rhan o'r targed o 30%.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i wneud y newidiadau angenrheidiol i adfer byd natur:

- Bu ein hymgyrch ar y cyd â 'Stamp Out The Red Route' i atal ffordd gyswllt arfaethedig coridor Glannau Dyfrdwy yn llwyddiannus. Rydym yn hyderus bod yr ymgyrch wedi cyfrannu'n sylweddol at benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno meini prawf llawer llymach ar gyfer adeiladu ffyrdd newydd yn y dyfodol.
- Rydym yn datblygu prosiect gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ymchwilio i'r prosesau a'r gofynion ar gyfer cyflawni 'Budd Net i Fioamrywiaeth' drwy ddatblygiad, ac rydym yn gobeithio y bydd yn arwain at ganllawiau clir i awdurdodau lleol a datblygwyr ledled Cymru.

**17% of species in Wales face extinction – and the future of once-common wildlife is uncertain.**

It has become clear that protecting what we have left is no longer enough. We need to create new spaces for nature by connecting habitats, restoring landscapes and reintroducing 'keystone' species.

Our aim is for at least 30% of land in Wales to be protected, connected and positively managed for nature. Our aim for the recovery of our seas is to seek an ecosystem-based approach to build resilience against increased pressures. Only Marine Protected Areas that are recovering will form part of the 30% target.

In the past year, North Wales Wildlife Trust continued to make the changes needed to put nature into recovery:

- Our joint campaign with 'Stamp Out The Red Route' to stop the proposed Deeside corridor link road was successful. We are confident that the campaign contributed significantly to the Welsh Government's decision to introduce far stricter criteria for the building of new roads in the future.
- We're developing a project with Conwy County Borough Council to investigate the processes and requirements for achieving 'Net Benefit for Biodiversity' through development, which we hope will lead to clear guidance for local authorities and developers throughout Wales.



NATUR MEWN NIFEROEDD
NATURE IN NUMBERS

**6,849 o degeirianau llydanwyrdd mwyaf**
wedi'u cofnodi yng Ngwarchodfa Natur Caeau Tan-y-Bwlch – un o'r cyfansymiau mwyaf erioed.

**6,849 greater butterfly-orchids**
were recorded at Caeau Tan-y-Bwlch Nature Reserve – one of the highest counts ever!

Buom yn gweithio gyda **mwy na 100 o ffermydd a daliadau tir**
i adfer ac ailgysylltu cynefinoedd yn Nhirwedd Fyw Alun a Chwiler.

We worked with **over 100 farms and landholdings**
to restore and reconnect habitats in our Alun and Chwiler Living Landscape.

**Mwy na 40km o lan yr afon**
wedi'i arolygu ar gyfer rhywogaethau estron ymledol ar hyd Afon Dyfrdwy, gyda samplu eDNA wedi'i ddefnyddio i ganfod rhywogaethau dyfrol.

**Over 40km of river bank**
were surveyed for invasive non-native species on the River Dee, with eDNA sampling used to detect aquatic species.

**1,700-1,900 o gywion Môr-wenoliaid Pigddu**
wedi hedfan y nyth yn llwyddiannus yng Ngwarchodfa Natur Cemlyn.

**1,700-1,900 Sandwich tern chicks**
successfully fledged at Cemlyn Nature Reserve.

© YNGC / NWWT BEN STAMMERS

ASTUDIAETH ACHOS:

# Dod â'r afanc yn ôl

**Mae Prosiect Afancod Cymru, sy'n cael ei gyflwyno ar ran yr holl Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru, yn ceisio ailsefydlu afancod yn y dirwedd oherwydd y rôl hanfodol y gallant ei chwarae yn adferiad byd natur.**

Mae afancod yn cael eu hadnabod fel 'rhywogaeth allweddol' oherwydd bod eu gweithgareddau chwilio am fwyd a chreu argaeau o fudd i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt sy'n byw mewn cynefinoedd afonydd a gwlybdiroedd ac o'u cwmpas. Mae'r mosaigau argaeau a phyllau maent yn eu creu hefyd yn helpu i wella ansawdd dŵr, rheoli llif, lliniaru llifogydd i lawr yr afon, sefydlogi lefelau trwythiad a lleihau erydiad mewn afonydd - mae afancod yn fuddiol i bobl hefyd!

Mae ein gweithgareddau'n canolbwyntio ar ddalgylch afon Dyfi, lle mae nifer bychan o afancod wedi eu darganfod yn byw yn y gwyllt. Rydym wedi bod yn brysur yn cynnal cyswllt ac ymgynghori helaeth; darparu gweithgareddau hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr i helpu i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y dyfodol; cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth am afancod; cynhyrchu adnoddau ar-lein, gan gynnwys pecynnau addysgol; cynnal arolygon a monitro; cyflawni gwelliannau bioamrywiaeth o fewn y dalgylch, fel plannu coed ar lan yr afon; a gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn i gyllido'r gwaith o greu safle i afancod a hwb ymgysylltu yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Dyfi.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn cynyddu ein gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd fel bod afancod yn cael croeso cyffredinol – ac rydym yn bwriadu rhyddhau nifer bychan o afancod i'r dalgylch er mwyn diogelu iechyd genetig hirdymor y boblogaeth bresennol.

*Roedd afancod Ewrasiaidd (Castor fiber) yn gyffredin ledled Cymru ar un adeg ond, oherwydd bod dyn yn hela am eu ffwr, eu cig a'u chwarennau arogl, diflannu fu eu hanes tua'r Oesoedd Canol.*








DYFI WILDLIFE CENTRE © MONTGOMERYSHIRE WILDLIFE TRUST; EUROPEAN BEAVER © CHRIS ROBBINS, IOLO WILLIAMS © EMYR EVANS







CASE STUDY:

# Bringing back the beaver

**Our Welsh Beaver Project, delivered on behalf of all the Wildlife Trusts in Wales, seeks to re-establish beavers in the landscape because of the vital role they can play in nature's recovery.**

Beavers are known as a 'keystone species' because their foraging and damming activities benefit a wide range of wildlife that lives in and around river and wetland habitats. The dam-and-pool mosaics they create also help to improve water quality, regulate flow, alleviate downstream flooding, stabilise water tables and reduce erosion in rivers – beavers are beneficial to humans, too!

Our activities are centred on the Dyfi catchment, where a small number of beavers have been discovered living in the wild. We have been busily running extensive liaison and consultation; delivering training activities for volunteers to help ensure that we are prepared for the future; running beaver awareness-raising activities; producing online resources, including educational packs; undertaking surveys and monitoring; delivering biodiversity enhancements within the catchment, such as riverbank tree planting; and working closely with Montgomeryshire Wildlife Trust, funding the creation of a beaver enclosure and engagement hub at their Dyfi Wildlife Centre.

Over the next two years, we'll be increasing our public engagement work so that beavers are universally welcomed – and plan to release a small number of beavers into the catchment to safeguard the long-term genetic health of the existing population.

*Eurasian beavers (Castor fiber) were once widespread across Wales but, due to hunting by man for their fur, meat and scent glands, they became extinct around the Middle Ages.*

BEAVER © NICK UPTON CORNWALL WILDLIFE TRUST; BEAVER DAM © NWWT ALICIA LEOW-DYKE



NOD
GOAL
2

# Gweithredu ystyrlon
# Meaningful action

**Heb bŵer pobl, mae'r frwydr i warchod byd natur a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn ymddangos yn dasg amhosibl.**

Mae gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gylch gwaith clir i ymgysylltu a grymuso pobl o bob oedran, cefndir a gallu i gynyddu rhengoedd y rhai sy'n barod i weithredu a sefyll dros natur, neu ddim ond ailymgysylltu â llefydd gwyllt a mannau gwyrdd a'u deall

Drwy gynyddu nifer y bobl sy'n gallu codi eu llais a gweithredu dros fywyd gwyllt, ac amrywio'r cymysgedd o unigolion sy'n camu i'n sector ni fel staff, aelodau neu ymgyrchwyr, bydd ein llais yn uwch ac yn ymestyn ymhellach nag erioed o'r blaen.

Mae ein gwaith i gefnogi pobl i weithredu ac ymgysylltu â chymunedau wedi cymryd camau breision ymlaen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Mae partneriaethau newydd gydag Asylum Link Glannau Merswy, Nacro a Boots on the Ground wedi caniatáu i ni weithio gyda gwirfoddolwyr angerddol y mae'r cyfle i weithio ym myd natur yn rhoi mwy o hyder a boddhad personol iddynt.
- Bellach mae gennym ni ddau aelod o staff ac un gwirfoddolwr allweddol sydd wedi'u hachredu fel 'Trefnwyr Cymunedol'. Byddant yn helpu i ehangu'r egwyddorion hyn i fod yn rhan o'n holl waith ni wrth i ni fynd ati i ysbrydoli 1 o bob 4 o bobl yng Ngogledd Cymru i weithredu dros fywyd gwyllt.

**Without people power, the fight to protect nature and tackle the climate crisis seems an insurmountable task.**

North Wales Wildlife Trust have a clear remit to engage and empower people of all ages, backgrounds and abilities to grow the ranks of those willing to take action and stand up for nature, or simply re-engage with and understand wild places and green spaces.

By increasing the number of people who can speak up and take action for wildlife, and diversifying the mix of individuals who step into our sector as staff, members or activists, our voice will be louder and reach further than ever before.

Our work to support people to take action and engage with communities has taken huge strides in the last year:

- New partnerships with Asylum Link Merseyside, Nacro and Boots on the Ground have allowed us to work with passionate volunteers for whom the opportunity to work in nature provides increased confidence and personal fulfilment.
- We now have two staff members and one key volunteer who are accredited 'Community Organisers'. They'll help to roll-out these principles to all of our work as we make our way to inspiring 1 in 4 people in North Wales to act for wildlife.



NATUR MEWN NIFEROEDD
NATURE IN NUMBERS

### 4,769 o bobl ifanc
wedi cymryd rhan mewn sesiwn addysg gyda'u hysgol neu grŵp ieuenctid.

### 4,769 young people
took part in an education session with their school or youth group.

### 23,897 o oriau
o amser wedi'i gyfrannu gan ein gwirfoddolwyr anhygoel.

### 23,897 hours
of time was given by our amazing volunteers.

### 205,100 Weithredoedd Gwyllt Ar Hap
wedi'u cyflawni yng Ngogledd Cymru yn ystod ymgyrch 30 Diwrnod Gwyllt.

### 205,100 Random Acts of Wildness
were committed in North Wales during our 30 Days Wild campaign.

### 10 ysgol gynradd
wedi cael cefnogaeth i wella eu gofod ar gyfer bywyd gwyllt a chynhyrchu bwyd.


### 10 primary schools
have been supported to improve their spaces for wildlife and food production.

© YNGC / NWWT LIN CUMMINS

ASTUDIAETH ACHOS

# Grymuso cenedlaethau'r dyfodol







**Hyrwyddo adferiad byd natur drwy roi cyfle i bobl ifanc gysylltu â byd natur; eu grymuso i gymryd camau ystyrlon ar gyfer newid cadarnhaol; a rhoi llwyfan iddynt rannu eu gwybodaeth a'u hangerdd.**

Mae Hyrwyddwyr Achub Cefnfor yn rhaglen sydd wedi'i chynllunio i roi cyfle i bobl ifanc Ynys Môn ddysgu mwy am fywyd gwyllt y môr; dysgu sgiliau sy'n gysylltiedig â chadwraeth forol (fel snorcelu a diogelwch ar y môr); a datblygu pob math o sgiliau bywyd buddiol ar yr un pryd.

Yn ystod eu cyfnod o flwyddyn gyda ni, mae ein pobl ifanc yn gwneud cyfraniad arbennig at gadwraeth morwellt - gan ymwneud â chasglu hadau, plannu a monitro yn ogystal â helpu i ymgysylltu cynulleidfaoedd newydd â'r byd rhyfeddol o dan y tonnau ac o amgylch ein harfordiroedd. Wedyn gwahoddir yr Hyrwyddwyr i fod yn fentoriaid ar gyfer y criw nesaf – gan ddysgu sgiliau arwain newydd ar yr un pryd – a chânt gyfle i ymuno â fforwm ieuenctid yr Ymddiriedolaeth Natur, Môn Gwyrdd, i barhau â'u siwrnai gadwraeth.

Daeth blwyddyn gyntaf y rhaglen i ben ym mis Mawrth 2023 gydag ymddangosiad ar *Blue Peter*, gan blannu hadau morwellt oddi ar Benrhyn Llŷn. Mae ein hail griw yn dechrau ym mis Ebrill 2023 – rydym yn hynod gyffrous am weithio gyda nhw yn ystod y misoedd nesaf ac mae gennym ni lawer o gyfleoedd gwych i ddod i'n cadwraethwyr ifanc ysbrydoledig ni elwa ohonynt!

HYRWYDDWYR ACHUB CEFNFOR / OCEAN RESCUE CHAMPIONS © YNGC / NWWT: SAEGRASS © PAUL NAYLOR







CASE STUDY:

# Empowering future generations

**Promoting nature's recovery by giving young people the opportunity to connect with nature; empowering them to take meaningful action for positive change; and providing them with a platform to share their knowledge and passion.**

Ocean Rescue Champions is a programme designed to give Anglesey's young people the opportunity to learn more about marine wildlife; learn skills associated with marine conservation (such as snorkelling and sea safety); and develop all sorts of beneficial life-skills at the same time.

During their year-long stint with us, our young people are making a particular contribution to seagrass conservation – getting involved with seed collection, planting and monitoring as well as helping to engage new audiences with the wonderful world beneath the waves and around our coasts. The Champions are then invited to become mentors for the next 'intake' – learning new leadership skills in the process – and given the chance to join the Wildlife Trust's youth forum, Môn Gwyrdd, to continue their conservation journey.

We rounded off the first year of the programme in March 2023 with an appearance on *Blue Peter*, planting seagrass seeds off the Llŷn Peninsula. Our second cohort start in April 2023 – we're hugely excited to work with them over the coming months and have lots of brilliant opportunities ahead for our inspiring young conservationists to benefit from!

HYRWYDDWYR ACHUB CEFNFOR / OCEAN RESCUE CHAMPIONS © DILYS THOMPSON




NOD
GOAL
3

# Atebion seiliedig ar natur
# Nature-based solutions

**Mae colli byd natur yng Ngogledd Cymru yn cael effaith glir a mesuradwy ar fywyd gwyllt ac ar bobl.**

Mae rhywogaethau dan fygythiad yn dioddef o golli cynefinoedd; mae lles meddyliol a chorfforol yn dirywio gyda llai o fannau gwyrdd o ansawdd uchel i bobl eu harchwilio a'u mwynhau; mae erydiad pridd yn cynyddu a ffrwythlondeb pridd yn lleihau; ac rydym yn gweld digwyddiadau tywydd eithafol yn amlach.

Diolch byth, gall byd natur ddarparu ei atebion ei hun i frwydro yn erbyn y peryglon hyn a'u gwyrdroi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi defnyddio ein dylanwad i annog ac arwain cymdeithas a phobl sy'n gwneud penderfyniadau i edrych tuag at atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.


- Rydym wedi galw ar ein hawdurdodau lleol i gydnabod yr argyfwng ecolegol yn gyhoeddus ac i gynnwys ymatebion cadarn yn eu cynlluniau strategol. Mae 'argyfwng hinsawdd ac ecolegol' wedi'i ddatgan yn Sir Ddinbych ac 'argyfwng hinsawdd a natur' yng Ngwynedd; tra bo'r awdurdodau yng Nghonwy, Ynys Môn a Wrecsam wedi datgan 'argyfyngau hinsawdd' ac mae gan Sir y Fflint 'strategaeth newid hinsawdd'
- Yng Ngwarchodfa Natur Cors y Sarnau, mae gwaith adfer mawndir ar y gweill ar safle hen blanhigfa goedwigaeth. Rydym wedi gosod bwnd newydd yn ei le i godi lefelau dŵr a gwella gallu'r tir i ddal a storio carbon, ac ar yr un pryd ail-greu cynefinoedd mign drawsnewid werthfawr a chyforgors yr iseldir.

**The loss of nature in North Wales is having a clear and measurable impact on both wildlife and people.**

Threatened species are suffering from habitat loss; mental and physical wellbeing is declining with fewer high-quality greenspaces for people to explore and enjoy; soil erosion is increasing and soil fertility decreasing; and we're seeing ever-more frequent extreme weather events.

Thankfully, the natural world can provide its own solutions to combat and reverse these dangers. Over the past year, North Wales Wildlife Trust have used our influence to encourage and guide society and decision-makers to look towards nature-based solutions to address the nature and climate crises.

- We've called for our local authorities to publicly recognise the ecological crisis and to build robust responses into their strategic plans. A 'climate and ecological emergency' has been declared in Denbighshire and 'climate and nature emergency' in Gwynedd; whilst authorities in Conwy, Anglesey and Wrexham have declared 'climate emergencies' and Flintshire has a 'climate change strategy'.
- At Cors y Sarnau Nature Reserve, peatland restoration is underway on the site of a former forestry plantation. We've installed a new bund to raise water levels and improve the land's capacity to sequester carbon, whilst simultaneously re-creating valuable transition mire and lowland raised bog habitats.



© MARK HAMBLIN/2020VISION

NATUR MEWN NIFEROEDD
NATURE IN NUMBERS

### 150,000+ o bobl

wedi ymweld ag un o'n gwarchodfeydd natur ni – llefydd gwyllt sydd o fudd i fywyd gwyllt ac i iechyd a lles pobl fel ei gilydd.

### 150,000+ people

visited one of our nature reserves – wild places benefitting wildlife and human health and wellbeing alike.

### 150,000 o hadau morwellt

wedi'u plannu ar ochr ddeheuol Penrhyn Llŷn.

### 150,000 seagrass seeds

were planted on the south side of the Llŷn Peninsula.

### Rydyn ni'n un o 12 o bartneriaid

'Care-Peat': prosiect Interreg Gogledd Orllewin Ewrop i leihau allyriadau carbon ac adfer capasiti storio carbon mawndiroedd.

### We're one of 12 partners

in 'Care-Peat': an Interreg North-West Europe project to reduce carbon emissions and restore the carbon storage capacity of peatlands.

ASTUDIAETH ACHOS


# Mawndiroedd: arwyr newid hinsawdd!

**Mae mawndiroedd iach yn gynefin i fywyd gwyllt y gwlybdir ac yn helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd drwy gloi carbon a lliniaru rhag llifogydd.**

Mae gan ein Gwarchodfa Natur ni yng Nghors y Sarnau fosäig o gynefinoedd gwlybdir, gan gynnwys mawn dwfn o dan hen blanhigfa gonifferaidd. Mae gweithredoedd coedwigaeth wedi gadael y darn yma o fawndir mewn cyflwr gwael, gyda'r draenio naturiol wedi'i addasu'n sylweddol. Yn ffodus, mae planhigion gwlybdir – gan gynnwys mwsoglau sffagnwm sy'n ffurfio mawn – wedi goroesi yn y pantiau gwlypach, ac rydym wedi bod yn brysur yn adfer y mawn sydd wedi'i ddiraddio gyda chefnogaeth gan brosiect Care-Peat Interreg NWE a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Y flaenoriaeth gyntaf oedd mynd i'r afael â cholli dŵr – mae ailwlychu yn caniatáu i blanhigion y gwlybdir ffynnu a lledaenu ac yn atal mawn agored rhag rhyddhau nwyon tŷ gwydr wrth iddo sychu a diraddio. Byddai hyn fel arfer yn cael ei gyflawni drwy osod argaeau yn y ffosydd – ond, gyda ffosydd cudd a gwreiddiau coed o bosibl yn caniatáu i ddŵr osgoi argaeau, defnyddiwyd dull gwahanol. Fe wnaethom osod bwnd cyfuchlin yn ei le i greu rhwystr di-dor a chodi lefelau'r dŵr daear: techneg a ddefnyddir fel arfer ar rosydd yr ucheldir yn hytrach na chorsydd yr iseldir.

Mae cam nesaf y prosiect yn cynnwys monitro lefelau'r dŵr a'r llystyfiant ar draws yr ardal adfer i weld pa mor dda mae'r cynefin gwlybdir yn adfer a phenderfynu a oes angen ymyrraeth bellach. Mae mesuriadau nwyon tŷ gwydr hefyd yn cael eu cymryd i weld pa mor gyflym mae'r mawndir sydd wedi'i ailwlychu'n symud o fod yn allyrrwr carbon i fod yn storfa garbon. Rydym yn edrych ymlaen at rannu'r canlyniadau!






LLYFANT MELYN / COMMON FROG © GUY EDWARDES 2020 VISION









CASE STUDY:

# Peatlands: climate change heroes!

**Healthy peatlands both provide habitat for wetland wildlife and help to combat climate change by locking up carbon and alleviating flooding.**

Our Cors y Sarnau Nature Reserve has a mosaic of wetland habitats, including deep peat beneath a former conifer plantation. Forestry operations have left this block of peatland in poor condition, with the natural drainage heavily modified. Fortunately, wetland plants – including peat-forming sphagnum mosses – have been hanging on in the wetter hollows, and we've been busy restoring the degraded peat with support from the Interreg NWE Care-Peat project and Natural Resources Wales.

The first priority was addressing water loss – re-wetting both allows wetland plants to flourish and spread and prevents exposed peat releasing greenhouse gasses as it dries out and degrades. This would usually be achieved by installing dams in the ditches – but, with hidden ditches and tree roots possibly allowing water to bypass dams, a different approach was used. We installed a contour bund to create a continuous barrier and raise ground water levels: a technique usually used on upland moors rather than lowland bogs.

The next phase of the project involves monitoring water levels and vegetation across the restoration area to see how well the wetland habitat is recovering and determine whether further intervention is needed. Greenhouse gas measurements are also being taken to see how quickly the re-wetted peatland is moving from being a carbon emitter to a carbon store. We're looking forward to sharing the results!

PICELLWR PRAF / BROAD BODIED CHASER © VAUGHN MATTHEWS; GWARCHODFA NATUR CORS Y SARNAU NATUR RESERVE © NWWT RICHARD CUTTS



# Ein Partneriad Naturiol

**Rydym yn falch o weithio dros fywyd gwyllt gyda busnesau ledled Gogledd Cymru.**

Mae ein Partneriaid Natur yn ein helpu i weithio dros Ogledd Cymru wylltach - drwy noddi ein prosiectau; creu cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr ar eu tir eu hunain; neu rannu eu harbenigedd am bynciau penodol. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n dangos y gall bioamrywiaeth olygu busnes!

# Our Natural Partners

**We're proud to work for wildlife with businesses throughout North Wales.**

Our Natural Partners help us work for a wilder North Wales – whether through sponsoring our projects; creating valuable wildlife habitats on their own land; or sharing their subject-specific expertise. Together, we're demonstrating that biodiversity can mean business!

Breedon Aggregates
Boltholes & Hideaways
Snowdon Mountain Railway Llanberis
Psyched Paddleboarding
Sugar & Loaf
Guest House
Jewels
hauck
uniandjack
Snowdonia Fire Protection
Smurfit Kappa
BroadbandUK
Airbus
RAW Adventures
Sykes Holiday Cottages
Vine House Farm
enfinium
Anglesey Sea Zoo Sw Môr Môn
Atlas Copco
Original Cottages
Kehoe Countryside Ltd
Coleg Cambria
holidaycottages.co.uk
Ad Astra Caravan & Camping Park
Outdoor Alternative Rhoscolyn
riello ups
Oscar Mayer Quality Foods
Innovation Group
Toyota Manufacturing UK
Albion Eco
Llyn Gwynant Campsite
Llandudno Golf Club Maesdu
Kendley Ltd Steel Fabrication & Erection
Asynnod Moel Famau Donkeys
P4 Group of Companies
zest
Wales Cottage Holidays
Tarmac A CRH Company
Green Wood



# Gadewch Waddol

**Helpwch i ddiogelu bywyd gwyllt a llefydd gwyllt lleol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy adael rhodd yn eich Ewyllys.**

Ar ôl i chi ddarparu ar gyfer eich anwyliaid, mae cofio am Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn eich Ewyllys yn helpu i gadw 'ch atgofion o'n bywyd gwyllt yn fyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae **22%** o'n hincwm gwirfoddol yn deillio o roddion mewn Ewyllysiau ac mae hyn yn ein galluogi ni i barhau i amddiffyn y bywyd gwyllt a'r llefydd gwyllt yn Ngogledd Cymru.

Mae **pob rhodd** ym mhob Ewyllys, waeth pa mor fawr neu fach, **yn gwneud gwahaniaeth**.

**Hoffech chi gael Ewyllys am ddim?** Rydym wedi ymrwymo i nifer o bartneriaethau sy'n galluogi ein cefnogwyr i ysgrifennu eu Hewyllys am ddim - heb unrhyw rwymedigaethau o gwbl. Ewch i **northwaleswildlifetrust.org.uk/gwaddol** neu cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth.

# Leave a Legacy

**Help protect local wildlife and wild places for future generations by leaving a gift in your Will.**

Once you have provided for your loved ones, remembering North Wales Wildlife Trust in your Will helps keep your memories of our wildlife alive for future generations.

**22%** of our voluntary income comes from gifts in Wills which enables us to continue to protect the wildlife and wild places of North Wales.

**Every gift** in every Will, however large or small, **makes a difference**.

**Would you like a free Will?** We have entered into a number of partnerships that enable our supporters to write their Wills for free – without any obligations whatsoever. Please visit **northwaleswildlifetrust.org.uk/legacy** or contact us for more information.



© ISTOCK PHOTOLIBRARY

# Ein cefnogwyr ni

Mae pobl yn ein cefnogi ni drwy fod yn **aelodau o'r Ymddiriedolaeth**, cyfrannu rhoddion, **gadael rhoddion mewn Ewyllysiau**, ymweld â'n siopau ni neu ein siop ar y we, a chynnig gwasanaethau.

Mae **gwirfoddolwyr** yn darparu sgiliau amrywiol a gwerthfawr; cynnal digwyddiadau, gwaith cadwraeth ymarferol, arolygon ar fywyd gwyllt, wardeiniaid safleoedd, gwaith morol, codi arian, rhoi cyngor proffesiynol a gweinyddu swyddfeydd.

Defnyddir grantiau gan ein **noddwyr** i'n helpu ni gyflawni ein hamcanion tra byddent hefyd yn cyfrannu at noda eu hunan.

Mae cyllid gan ein his-gwmnïau, **Enfys Ecology** ac **NWWT Trading** yn darparu incwm digyfyngiad gwerthfawr.

**Mae ein staff** yn fedrus ac yn hynod frwd i weithredu ar ran ein cefnogwyr ni er budd bywyd gwyllt, gan fynd yr ail filltir yn aml.

# Our supporters

People support us by being **Trust members,** giving donations, leaving **gifts in Wills**, visiting our shops or web-shop and offering services.

**Volunteers** provide varied and valuable skills; running events, practical conservation work, wildlife surveys, site wardening, marine work, fundraising, giving professional advice and office administration.

Our **funders** use grants to help us fulfil our objectives whilst contributing to their own goals.


Funds from our subsidiaries, **Enfys Ecology** and **NWWT Trading**, provide valuable unrestricted income.

**Our staff** are skilled and highly motivated to act on our supporters' behalf in the interest of wildlife, often going beyond the call of duty.




© DILYS THOMPSON

# Ein cyllid




| | £ |
|---|---|
| Buddsoddiad a Rhenti | 55,716 |
| Cynhyrchu arian | 14,648 |
| Rhoddion, Aelodaeth, Cymynroddion a Chodi Arian | 377,865 |
| Grantiau | 5,137,562 |
| **CYFANSWM** | **5,585,791** |




| | £ |
|---|---|
| Cadwraeth | 2,514,466 |
| Costau gweithredu | 1,011,871 |
| Addysg | 933,579 |
| **CYFANSWM** | **4,459,916** |

**DATGANIAD GAN YR YMDDIRIEDOLWYR**

Tynnwyd yr wybodaeth ariannol hon o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud â'r datganiad o weithgareddau ariannol a'r fantolen ar 31 Mawrth 2023. Adeg eu cynhyrchu (Gorffennaf 2023) roedd yr archwiliad blynyddol yn parhau yn ei gyfnod cynnar ac nid oedd unrhyw ffigurau Grŵp cyfunol ar gael i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae ffigurau 2023 yn y tabl yn ymwneud â'r Ymddiriedolaeth ei hun yn unig, cyn cynnwys ffigurau gan Enfys Ecology ac NWWT Trading. Bydd y ffigurau archwiliedig terfynol ar gyfer y Grŵp yn cael eu cyflwyno i'r aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ym mis Hydref 2023 a bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hamlygu bryd hynny. Unwaith y cânt eu cymeradwyo, bydd y cyfrifon yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau. Bydd y cyfrifon blynyddol llawn ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ni cyn gynted ag y byddant ar gael, gyda chopïau papur ar gael o'n prif swyddfa. Mae ein Trysorydd, Ian Dunsire, yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi: hbsian@aol.com / 01766 238417.

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|
| **Adnoddau sy'n dod i mewn** | | |
| Adnoddau sy'n dod i mewn o gronfeydd a gynhyrchir | | |
| Incwm gwirfoddol | 377,865 | 495,030 |
| Gweithgareddau ar gyfer cynhyrchu arian | 14,648 | 606,621 |
| Incwm buddsoddi | 55,716 | 45,191 |
| | **448,229** | **1,146,842** |
| Adnoddau sy'n dod i mewn o weithgareddau elusennol | 5,137,562 | 2,591,067 |
| **Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn** | **5,585,791** | **3,737,909** |
| **Adnoddau a wariwyd** | | |
| Cost codi arian | 1,011,870 | 654,711 |
| Gwariant elusennol | 3,448,046 | 2,590,942 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **4,459,916** | **3,245,653** |
| Symudiad net mewn cronfeydd cyn trosglwyddo | 1,125,875 | 492,256 |
| 2022 Unioniadau | 197,941 | - |
| **Symudiadau net mewn cronfeydd** | **1,323,816** | **492,256** |
| **Cysoni cronfeydd** | | |
| Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen | 3,029,137 | 2,536,881 |
| **Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen** | **4,352,953** | **3,029,137** |

## MANTOLEN GYFNERTHEDIG ar 31 Mawrth 2023

| | | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | Asedau treftadaeth | 581,770 | 581,770 |
| | Asedau diriaethol | 157,678 | 40,605 |
| | Buddsoddiadau | 170,000 | 170,000 |
| | **Cyfanswm yr asedau sefydlog** | **909,448** | **792,375** |
| **Asedau cyfredol** | Stoc | - | 6,350 |
| | Dyledwyr | 1,242,820 | 990,543 |
| | Arian yn y banc ac mewn llaw | 2,914,811 | 2,149,738 |
| | **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | **4,157,631** | **3,146,631** |
| **Credydwyr:** symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | -714,126 | -909,869 |
| | **Asedau cyfredol net** | **3,443,505** | **2,236,762** |
| | **ASEDAU NET** | **4,352,953** | **3,029,137** |

# Trosolwg ariannol

**Cafodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru flwyddyn ariannol lwyddiannus, gan ddod yn ôl i ryw fath o normalrwydd ar ôl y tarfu yn ymwneud â'r pandemig ac ehangu ein gweithredu i ateb y galw newydd am ein gwasanaethau. Er gwaethaf yr argyfwng costau byw, mae ein haelodaeth wedi parhau i gynyddu i 9,377 ar ddiwedd y flwyddyn: cynnydd net o fwy nag 800 yn ystod y flwyddyn sy'n cynnal ein safle ni fel un o'r Ymddiriedolaethau Natur sy'n perfformio orau. Mae'r incwm a'r gefnogaeth a geir o ganlyniad yn ddylanwad sylweddol tuag at ein llwyddiant, ac rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar i'n haelodau am eu haelioni.**

Tyfodd ein trosiant yn gyson drwy gydol y flwyddyn ond, yn y chwarter olaf, cafodd hwb aruthrol drwy gyfraniad sylweddol gan Aviva tuag at brynu Bryn Ifan: 450 o erwau o dir ger Clynnog Fawr. Mae derbyn y cyllid hwn wedi gwthio ein trosiant ni i dros £5.5 miliwn (i fyny o £3.7 miliwn y llynedd) ac mae hyn wedi chwyddo ein cronfeydd arian parod ni yn y ffigurau diwedd blwyddyn. Ni chwblhawyd pryniant gwirioneddol y tir tan 4 diwrnod ar ôl i'n llyfrau ni gau, a diystyrodd ein harchwilwyr y dylid cynnwys yr eiddo gwerth £1.5 miliwn yn ein hasedau sefydlog tan flwyddyn ariannol 2023-24.

Unwaith eto roedd modd i ni gynyddu'r cyllid tuag at ein gwaith cadwraeth (£2.5 miliwn, i fyny o £1.7 miliwn) ac addysg (£933,000 o £858,000) a chynyddodd ein cyfrif pennau i 48 (o 42.5). Cafodd ein his-gwmnïau, Enfys Ecology a NWWT Trading, flynyddoedd heriol, gyda'r cyntaf yn cyfrannu £45,000 a'r ail yn gwneud colled fechan oherwydd ailagoriad hwyr y siopau manwerthu. Mae'r ddau yn disgwyl gwelliant sylweddol yn 2023-24.

Ar y cyfan, blwyddyn brysur – ac mae'r staff, y gwirfoddolwyr a holl gefnogwyr Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn haeddu llongyfarchiadau a diolch am bopeth sydd wedi'i gyflawni!



**Ian Dunsire,**
*Trysorydd & Ysgrifennydd y Cwmni*



# Swyddogion anrhydeddus


**Llywydd**
Dafydd Elis-Thomas

**Is Lywyddion**
Pippa Bonner, Geoff Radford, Dr Goronwy Wynne

**Cadeirydd**
Howard Davies

**Trysorydd**
Ian Dunsire


**Ysgrifennydd Anrhydeddus**
James Robertson (Ymddeolwyd 22 Hydref 2022)

**Ysgrifennydd y Cwmni**
Ian Dunsire


**Ymddiriedolwyr**
Bethan Beech, Gillian Coates, David Davies, Howard Davies, Ian Dunsire, Alasdair Forman, Frankie Hobro, Alexandra Lord, Gina Mills

Ymddeolwyd yn y flwyddyn ariannol: Simon Mills, James Robertson, Lyndell Williams

# Our finances




| | £ |
|---|---|
| Investment and rents | 55,716 |
| Fund generation | 14,648 |
| Donations, Membership, Legacies and Fundraising | 377,865 |
| Grants | 5,137,562 |
| **TOTAL** | **5,585,791** |




| | £ |
|---|---|
| Conservation | 2,514,466 |
| Operating costs | 1,011,871 |
| Education | 933,579 |
| **TOTAL** | **4,459,916** |

**STATEMENT BY TRUSTEES**

This financial information was extracted from the Trust's accounts relating to the statement of financial activities and balance sheet as at 31 March 2023. At the time of production (July 2023) the annual audit was still at an early stage and no Group consolidated figures were available for inclusion in this report. The 2023 figures in the table relate purely to the Trust itself, prior to the inclusion of figures from Enfys Ecology and NWWT Trading. The final audited figures for the Group will be presented to members at North Wales Wildlife Trust's AGM in October 2023 and any significant changes will be highlighted at that time. Once approved, the accounts will be formally submitted to The Charity Commission and Companies House. The full annual accounts and the trustees' annual report will be published on our website as soon as they are available, with paper copies available from our head office. Our Treasurer, Ian Dunsire, is happy to answer any questions that you may have: hbsian@aol.com / 01766 238417.

## STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES for year ended 31 March 2023

| | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|
| **Incoming resources** | | |
| Incoming resources from generated funds | | |
| Voluntary income | 377,865 | 495,030 |
| Activities for generating funds | 14,648 | 606,621 |
| Investment income | 55,716 | 45,191 |
| | **448,229** | **1,146,842** |
| Incoming resources from charitable activities | 5,137,562 | 2,591,067 |
| **Total incoming resources** | **5,585,791** | **3,737,909** |
| **Resources expended** | | |
| Fundraising cost | 1,011,870 | 654,711 |
| Charitable expenditure | 3,448,046 | 2,590,942 |
| **Total resources expended** | **4,459,916** | **3,245,653** |
| Net movement in funds before transfers | 1,125,875 | 492,256 |
| 2022 Adjustments | 197,941 | - |
| **Net movements in funds** | **1,323,816** | **492,256** |
| **Reconciliation of funds** | | |
| Total funds brought forward | 3,029,137 | 2,536,881 |
| **Total funds carried forward** | **4,352,953** | **3,029,137** |

## CONSOLIDATED BALANCE SHEET as at 31 March 2023

| | | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|---|
| **Fixed assets** | Heritage assets | 581,770 | 581,770 |
| | Tangible assets | 157,678 | 40,605 |
| | Investments | 170,000 | 170,000 |
| | **Total fixed assets** | **909,448** | **792,375** |
| **Current assets** | Stock | - | 6,350 |
| | Debtors | 1,242,820 | 990,543 |
| | Cash at bank and in hand | 2,914,811 | 2,149,738 |
| | **Total current assets** | **4,157,631** | **3,146,631** |
| **Creditors:** amounts falling due within one year | | -714,126 | -909,869 |
| | **Net current assets** | **3,443,505** | **2,236,762** |
| | **NET ASSETS** | **4,352,953** | **3,029,137** |

# Financial overview

**North Wales Wildlife Trust had a successful financial year, getting back to some form of normality after pandemic-related disruption and expanding our operation to meet new demand for our services. Despite the cost of living crisis, our membership has continued to grow to 9,377 at year-end: a net increase of over 800 during the year which maintains our position as one of the best performing Wildlife Trusts. The income and support received as a result are a considerable influence towards our success, and we continue to be grateful to our members for their generosity.**

Turnover grew steadily throughout the year but, in the final quarter, was boosted enormously by a significant donation from Aviva towards the purchase of Bryn Ifan: 450 acres of land near Clynnog Fawr. The receipt of these funds pushed our turnover to over £5.5 million (up from £3.7 million last year) and this has rather inflated our cash reserves in the end-year figures. The actual purchase of the land did not complete until 4 days after our books closed, and our auditors ruled out the inclusion of the £1.5 million property in our fixed assets until financial year 2023-24.

We were again able to increase funding towards our conservation work (£2.5 million, up from £1.7 million) and education (£933,000 from £858,000) and our headcount grew to 48 (from 42.5). Our subsidiaries, Enfys Ecology and NWWT Trading, had challenging years, with the former contributing £45,000 and the latter making a small loss because of the late reopening of the retail stores. Both expect a significant upturn in 2023-24.

Overall, a busy year – for which the staff, volunteers and all North Wales Wildlife Trust supporters deserve congratulations and thanks for all that has been achieved!



**Ian Dunsire,**
*Treasurer and Company Secretary*



# Honorary officers

**President**
Dafydd Elis-Thomas

**Vice Presidents**
Pippa Bonner, Geoff Radford,
Dr Goronwy Wynne

**Chair**
Howard Davies

**Treasurer**
Ian Dunsire

**Honorary Secretary**
James Robertson (Retired 22 October 2022)

**Company Secretary**
Ian Dunsire

**Trustees**
Bethan Beech, Gillian Coates, David Davies, Howard Davies, Ian Dunsire, Alasdair Forman, Frankie Hobro, Alexandra Lord, Gina Mills

Retired during the financial year: Simon Mills, James Robertson, Lyndell Williams

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust

## Gwnewch fywyd gwyllt yn rhan o'ch stori ...

- Dod yn aelod
- Gwirfoddoli eich amser
- Cefnogi ein hymgyrchoedd
- Cofio amdanom yn eich Ewyllys

## Make wildlife part of your story ...

- Become a member
- Volunteer your time
- Support our campaigns
- Remember us in your Will

**northwaleswildlifetrust.org.uk**

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust
Llys Garth, Ffordd Garth / Garth Road,
Bangor, Gwynedd LL57 2RT

01248 351541
info@northwaleswildlifetrust.org.uk

Rhif Cofrestru'r Elusen / Registered Charity No. 230772



© LINDA PITKIN 2020 VISION